

Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – hysbysiad penderfyniad rheolaeth prisiau drafft



Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r rheolaethau prisiau drafft yr ydym wedi eu cyhoeddi ar gyfer 14 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth a dŵr yn unig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhain yn ategu'r pedwar rheolaeth prisiau drafft cynharach a gyhoeddwyd gennym ar gyfer South West Water ac Affinity Water (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill) a Dŵr Cymru a Northumbrian Water (a gyhoeddwyd ym mis Mai).

Byddai'r rheolaethau prisiau drafft at gyfer pob un o'r 18 cwmni, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn arwain ar gyfartaledd biliau ar gyfer cwsmeriaid dŵr a dŵr gwastraff yn 2015-20 sydd 5% yn is nac oeddent yn 2010-15 mewn termau real. Ar yr un pryd byddai cwsmeriaid yn elwa o well lefelau gwasanaeth a gwelliannau o ganlyniad i wariant sylweddol o dros £43 biliwn.

Mae cwmnïau wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â dros chwarter miliwn o'u cwsmeriaid, y rhaglen ymgysylltu fwyaf erioed yn y sector. Mae byrddau cwmnïau wedi cymryd gwir berchnogaeth o'u cynlluniau busnes ac wedi canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau y mae cwsmeriaid am eu cael ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys diogelu'r amgylchedd. Rydym yn gweld hyn fel cam yn y cyfeiriad cywir i gynnal a meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn sector sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Fel rhan o'r broses rheolaeth prisiau drafft rydym wedi herio'r cynigion a gyflwynwyd gan y cwmnïau ac wedi ymyrryd pan yr oeddem yn teimlo bod angen er mwyn diogelu cwsmeriaid.

Wrth gyrraedd y pwynt hwn yn y broses, mae'r cwmnïau ac Ofwat wedi ystyried yn ofalus eu cyfrifoldebau statudol, yn cynnwys cyfrifoldebau amgylcheddol ac ansawdd dŵr. Rydym wedi datblygu'r penderfyniadau drafft yn unol â'n methodoleg derfynol a'n dyletswyddau statudol. Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i ganllawiau perthnasol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac egwyddorion arfer rheoleiddio gorau i fod yn dryloyw, atebol, cymesur, cyson ac wedi targedu.

Sicrhau'r fargen orau i gwsmeriaid

Mae tair ffactor allweddol wedi cynorthwyo i sicrhau'r fargen orau i gwsmeriaid.

- **Cynigodd y rhan fwyaf o gwmnïau filiau is yn y cynlluniau busnes a gyflwynwyd ganddynt ym mis Mehefin (ac eithrio dau gwmni).**
Gwrandawodd y rhan fwyaf o gwmnïau ar bryderon eu cwsmeriaid ynglŷn â chostau byw a rhoi ystyriaeth i farn cwsmeriaid wrth greu eu cynlluniau. Mabwysiadodd gwahanol gwmnïau wahanol ddulliau yn cynnwys casglu barn cwsmeriaid bregus (yn eu plith cwsmeriaid ar incwm isel a rheini ag anabledau) mewn arolygon a chynnal grwpiau ffocws wedi'u targedu ar gyfer cwsmeriaid bregus. Mae cwmnïau yn cynnig ystod o fesurau i gefnogi cwsmeriaid sy'n debygol o gael problemau fforddiadwyedd yn cynnwys darparu tariffau cymdeithasol sy'n cynnig disgowntiau i'r cwsmeriaid hynny. Mae rhai yn cynnig gweithio'n agos â darparwyr tai cymdeithasol a darparwyr cyngor ariannol a chynnig archwiliadau effeithlonrwydd dŵr cartref unigol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid bregus yn derbyn cyngor arbenigol a chymorth gyda materion fforddiadwyedd. Ar y cyfan, mae cwmnïau wedi dangos newid mawr yn y ffordd y gwnaethant ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid, gan weithio gyda grwpiau her cwsmeriaid annibynnol i ddarparu cynlluniau o ansawdd gwell sy'n adlewyrchu blaenoriaethau eu cwsmeriaid.
- **Rydym yn gyson wedi defnyddio'r egwyddorion a amlinellir yn ein methodoleg derfynol i sicrhau'r fargen orau i gwsmeriaid.** Ar gyfer yr adolygiad prisiau hwn rydym wedi gweddnwedd y ffordd yr ydym yn gosod rheolaethau prisiau. Rydym wedi gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, rydym wedi symud o seilio ein her effeithlonrwydd i gwmnïau ar y mesur effeithlonrwydd cyfartalog yr oeddem yn ei ddefnyddio yn y gorffennol i her effeithlonrwydd chwarter uwch mwy ymestynnol; fe wnaeth y newid hwn dynhau'r trothwy cost y gwnaethom herio cwmnïau yn ei erbyn gan fwy na £3 biliwn.
- **Rydym wedi cynnal bar tystiolaethol uchel wrth asesu'r cynlluniau busnes ac rydym wedi ymyrryd pan fo angen i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu.** Er enghraifft, ym mis Rhagfyr cyflwynodd pob cwmni gost cyfalaf a oedd yn uwch na'r hyn yr oedd tystiolaeth y farchnad yn awgrymu y dylai fod. O ganlyniad cyhoeddom ein canllaw risg a gwobr, sy'n nodi ein disgwyliadau ynglŷn â chost cyfalaf. O ganlyniad, fe wnaeth nifer o gwmnïau adlewyrchu ein disgwyliadau o gost cyfalaf yn eu cynlluniau diwygiedig ym mis Mehefin. Pan na wnaethant hynny fe wnaethom ymyrryd. Arweiniodd hyn at dros £2 biliwn o arbedion ar gyfer cwsmeriaid erbyn 2020.

Sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu

Drwy ddatblygiad eu cynlluniau busnes, mae cwmnïau wedi gweithio'n galed i gryfhau eu perthynas gyda'u cwsmeriaid. Rydym wedi gweld cwmnïau'n perchnogi'r cynlluniau ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a rhanbarthol eu cwsmeriaid yn llawer mwy nac yn y gorffennol. Pan ein bod yn fodlon ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd i ni fod cwmnïau yn gwneud y peth iawn ar gyfer eu cwsmeriaid, nid ydym wedi camu i mewn i ymyrryd yn eu cynlluniau. Ond lle nad ydym wedi bod yn fodlon, rydym wedi ymyrryd yn ôl y gofyn er mwyn diogelu cwsmeriaid. Wrth wneud hynny, rydym wedi cymryd pob cam priodol i ddiogelu buddiannau cwsmeriaid tra ar yr un pryd sicrhau bod cwmni effeithlon yn gallu codi'r arian sydd ei angen arno i fuddsoddi er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau.

Mae maint a chwmpas yr ymyriadau yr ydym wedi eu gwneud ar draws y 14 cwmni wedi amrywio, rhai gydag ymyriadau cymedrol, ac eraill er mwyn mynd i'r afael â phryderon mwy sylweddol. O ganlyniad, mae'r rheolaethau prisiau drafft ar gyfer y cwmnïau hyn yn wahanol iawn i'r rheolaethau prisiau drafft y gwnaethom eu cyhoeddi ar gyfer y ddau gwmni uwch (South West Water ac Affinity Water) ac i'r ddau reolaeth prisiau drafft cynnar (Dŵr Cymru a Northumbrian Water) lle gwnaethom ystyried bod angen ychydig o ymyrraeth. Ar gyfer pob un o'r 18 cwmni rydym wedi defnyddio'n gyson ein methodoleg derfynol ac egwyddorion o reoleiddiad rheolaeth prisiau wedi ei thargedu a chymesur.

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae'r deunydd yr ydym wedi ei gyhoeddi heddiw yn nodi ein hargymhellion drafft. Nawr mae gan randdeiliaid y cyfle i wneud sylwadau ar y cynigion a'r dull yr ydym wedi ei ddefnyddio i ddod i'n penderfyniad **erbyn 10am 3 Hydref 2014**. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl sylwadau cyn gwneud penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2014. Yn arbennig, bydd cwmnïau'n adolygu a fyddant yn cynnwys tystiolaeth bellach o ganlyniad i'r adborth yr ydym wedi ei roi iddynt. Byddwn hefyd yn cynnal ein bar tystiolaethol uchel er mwyn gwneud yn siŵr bod ein penderfyniadau terfynol yn rhoi'r fargen orau posibl i gwsmeriaid.

Y cwmnïau fydd wedyn yn penderfynu bob blwyddyn ar ba lefel y byddant yn gosod taliadau ar gyfer cwsmeriaid yn gyson â'n penderfyniadau terfynol. Bydd y taliadau cyntaf y byddant yn eu gosod sy'n gyson â'n penderfyniadau terfynol Rhagfyr 2014 yn dod i rym ym mis Ebrill 2015.

Rhoi'r fargen orau i gwsmeriaid

Ar y cyfan, mae'r cynlluniau busnes y mae cwmnïau wedi eu cyflwyno ar gyfer yr adolygiad prisiau hwn yn rhoi llawer mwy o ystyriaeth i farn cwsmeriaid ynglŷn â beth sydd fwyaf pwysig iddynt hwy. Mae cwmnïau wedi buddsoddi llawer o amser ac ymdrech er mwyn paratoi cynlluniau o safon uwch a fydd yn arwain at ragor na £43 biliwn o wariant tra'n parhau'n fforddiadwy i'w cwsmeriaid. Dros y pum mlynedd nesaf bydd ein penderfyniadau drafft yn cynnwys ymrwymïadau i gyflawni:

- cyfartaledd o 40% o ostyngiad yn yr amser a gollir oherwydd amhariad ar gyflenwad;
- lleihad o 1,200 mewn achosion o orlifiad carthffos mewnol erbyn 2020;
- dŵr glanach mewn dros 50 o draethau. Targed o ddim digwyddiadau llygredd difrifol (categori 1 neu 2), gyda digwyddiadau o lygredd arall yn gostwng gan tua charter; ac
- arbed o leiaf 340 miliwn litr o ddŵr drwy fynd i'r afael â gollyngiadau a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr - digon o ddŵr wedi ei arbed i wasanaethu'r holl gartrefi yn Birmingham, Lerpwl a Leeds. Targed o 100% o gydymffurfïad ag ansawdd dŵr yfed.

Drwy gydol y broses rheolaeth prisiau hon rydym wedi annog deialog adeiladol gyda'r cwmnïau er mwyn cael y canlyniad gorau posibl ar gyfer cwsmeriaid. Rhoddodd yr adolygiad seiliedig ar risg adborth ar ansawdd y cynlluniau busnes cyntaf a gyflwynwyd gan y cwmnïau ym mis Rhagfyr a meysydd oedd angen sylw. Mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau wedi ymgysylltu'n gadarnhaol gyda ni ac o ganlyniad rydym wedi gweld gwelliant cyffredinol yn ansawdd y cynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Mehefin.

Ein methodoleg

Cyflwynodd ein methodoleg derfynol nifer o newidiadau sylweddol yn y modd y mae cwmnïau yn rhedeg eu busnes a sut yr ydym yn rheoleiddio. Rydym yn:

- ei gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau, gydag ymrwymïadau perfformiad ac chymhelliannau cyflawni;
- rhoi mwy o bwyslais ar berchnogaeth cwmnïau o gynlluniau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid er mwyn deall eu blaenoriaethau a'u parodrwydd i dalu am ganlyniadau penodol, a thrwy ddarpariaeth sicrwydd bwrdd;
- gosod pedwar math o reolaeth prisiau ar wahân, yn ymdrin â gweithgareddau manwerthu ar gyfer cwsmeriaid preswyl a dibreswyl a gweithgareddau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol;

- annog cynlluniau o safon uchel a defnyddio dull cymesur drwy'r adolygiad seiliedig ar risg a welodd ddau gwmni'n derbyn penderfyniadau drafft cynnar fel cwmnïau uwch;
- ar gyfer cyfanwerthu, rydym yn defnyddio dull gwariant cyfan (totex) er mwyn galluogi ac annog cwmnïau i ddatblygu atebion cost mwy arloesol;
- ar gyfer preswyl, defnyddio cyfartaledd cost i roi her i benderfynu ar y costau a ganiateir; a
- rhoi her effeithlonrwydd chwartel uwch ar gostau cyfanwerthu yr holl cwmnïau a defnyddio trothwy tystiolaeth uchel i adolygu hawliadau costau cyfanwerthol cwmnïau.

Drwy'r penderfyniadau drafft rydym wedi gweld y fethodoleg hon yn rhoi manteision gwirioneddol ar gyfer cwsmeriaid, yn cynnwys yr amgylchedd nawr ac i'r dyfodol. Rydym yn disgwyl i gwmnïau adeiladu ymhellach ar hyn cyn y penderfyniadau terfynol wrth iddynt adolygu ein penderfyniadau drafft ac ymateb i'r heriau yr ydym wedi eu gosod.

Rydym wedi gosod bar tystiolaethol uchel

Ein dyletswydd yw diogelu buddiannau cwsmeriaid a sicrhau bod cwmni effeithlon yn gallu cyllido ei swyddogaethau.

Er mwyn cyflawni ein dyletswydd, rydym wedi ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i gynigion a gyflwynir yng nghynlluniau busnes cwmnïau gyrraedd ein bar tystiolaethol uchel, gan ein bodloni bod cwmni yn cyflawni'r hyn y mae ei gwsmeriaid eisiau a hynny am bris y gallant ei fforddio. Rydym wedi ymyrryd dim ond pan na gyrhaeddwyd y bar tystiolaethol hwn. Rydym wedi rhoi'r cyfrifoldeb ar gwmnïau i'n sicrhau bod eu cynlluniau yn rhai y gellir eu cyllido. Lle yr ydym wedi ymyrryd i newid y cynlluniau hynny rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r angen i sicrhau bod cwmni effeithlon yn gallu codi'r arian sydd ei angen arno i fuddsoddi er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau.

Mae maint a chwmpas yr ymyriadau yr ydym wedi eu gwneud yn amrywio ar draws y 14 cwmni, ar gyfer rhai rydym wedi gwneud ymyriadau cymedrol, ac ar gyfer eraill mae ein hymyriadau wedi bod yn fwy sylweddol. Darparodd nifer o gwmnïau dystiolaeth o ansawdd uchel i gefnogi eu cynigion gan roi hyder i ni y byddai'r cynllun yn cyflawni'r hyn yr oedd y cwsmeriaid am ei gael am bris y gallant ei fforddio, mewn modd a oedd yn effeithlon ac y gellid ei gyllido. Yn y cynlluniau hyn rydym wedi gwneud dim ond nifer fechan o ymyriadau. Lle na wnaethom dderbyn y dystiolaeth i gefnogi cynigion rydym wedi ymyrryd yn fwy sylweddol yn unol â'n methodoleg.

Mae'r rheolaethau prisiau drafft at gyfer y 14 cwmni hyn yn wahanol i'r rheolaethau prisiau drafft yr ydym eisoes wedi eu cyhoeddi. Cynhyrnodd South West Water ac Affinity Water gynlluniau rhagorol nad oedd yn gofyn am ymyriadau o bwys ac felly cawsant statws gwell. Mae'r cwmnïau hyn wedi bod mewn sefyllfa i ddechrau gwaith i gyflawni eu cynlluniau ers mis Ebrill 2014. Fe wnaethom wahodd pob un o'r 16 cwmni nad oedd wedi cymhwyso ar gyfer statws gwell i wneud cais am benderfyniad drafft o reolaethau prisiau 2015-20 erbyn mis Mehefin yn hytrach nac Awst 2014. Ar 6 Mai fe wnaethom gadarnhau y byddai dau gwmni, Northumbrian Water a Dŵr Cymru, yn derbyn penderfyniad drafft cynnar. Cyflwynodd y ddau gwmni gynlluniau sy'n cyflawni'r canlyniadau y mae eu cwsmeriaid eisieu a rhai y gallant eu fforddio. Mewn nifer fechan o achosion roedd yn rhaid i ni ymyrryd er mwyn diogelu cwsmeriaid.

Hyd yn oed wedi ein hymyriadau, ar gyfer nifer o gwmnïau nid yw ein penderfyniadau drafft ar y cyfan wedi newid o'u cynigion cynllun busnes. Yn gyffredinol, rydym yn caniatáu 96% o'r refeniw a nodir mewn cynlluniau busnes cwmnïau. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith y mae cwmnïau wedi ei wneud mewn ymgysylltu â chwsmeriaid, gweithio gyda'u grwpiau her cwsmeriaid, a herio eu hunain cyn cyflwyno eu cynlluniau i ni.

Er bod nifer o ffactorau sy'n ysgogi gwahaniaethau mewn lwfans refeniw, mae ein hymyriadau ar gostau dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol yn ysgogwr allweddol o'r gwahaniaeth rhwng penderfyniad refeniw drafft a chynlluniau cwmnïau. Mae tua 80% o werth ymyriadau yn ymwneud â chostau cyfanwerthol.

Mae Tabl 1 yn crynhoi ein hymyriadau allweddol ar draws pob elfen o'r cynlluniau busnes. Mae ein holl ymyriadau arfaethedig wedi dilyn y fethodoleg derfynol a chanllawiau dilynol, lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn sicrhau eu bod wedi eu gweithredu mewn modd cyson ar draws yr holl gwmnïau.

Rydym yn disgwyl cynnal mwy o graffu ar y cwmnïau hynny oedd angen ymyriadau sylweddol, neu niferus, er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid ac i fabwysiadu gweithdrefn oruchwylio a monitro sy'n hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer gwelliannau mewn perfformiad a sicrwydd cwmni.

Perthynas â phenderfyniadau drafft PR14 cynharach

Pan wnaethom ein penderfyniadau drafft cynnar ar gyfer Northumbrian Water a Dŵr Cymru, fe ddywedom y byddent yn cael eu trin yr un fath â'r cwmnïau sy'n derbyn penderfyniadau drafft nawr. Ni fyddent yn ennill na cholli o ganlyniad i dderbyn eu penderfyniadau drafft yn gynharach (y tu hwnt i'r budd o gael y penderfyniadau drafft cynharach eu hunain). Er nad ydym yn cyhoeddi penderfyniadau drafft diwygiedig llawn ar gyfer y ddau gwmni hwn, rydym wedi cyhoeddi penderfyniadau drafft ar gyfer eu rheolaeth prisiau manwerthol dibreswyl (nad ydym wedi eu darparu ar gyfer unrhyw gwmni yn flaenorol) a bydd ein dull ar gyfer ymyriadau mewn meysydd megis gwiriadau llorweddol ar ganlyniadau, yr un mor berthnasol iddynt hwy.

Ar gyfer South West Water ac Affinity Water, cwmnïau sydd â statws gwell, mae ein dull yn wahanol. Ar gyfer y cwmnïau hyn fe wnaethom ymrwymo i ddull 'gwneud dim niwed' (fel y manylir yn ['Gosod rheolaethau prisiau ar gyfer 2015-20 – penderfyniadau ar gwmnïau uwch a'r camau nesaf'](#)) fel na chânt eu cosbi am gyflwyno cynlluniau o ansawdd uchel a derbyn penderfyniad drafft cynnar. O ganlyniad, bydd i ba raddau y bydd unrhyw newidiadau yn berthnasol i'r ddau gwmni yn wahanol i Northumbrian Water a Dŵr Cymru.

Tabl 1 Meysydd ymyrryd allweddol o fewn rheolaethau prisiau

Mater	Ein hymyriad	Pam y gwnaethom ymyrryd
<p>Canlyniadau</p> <p>Cyflawni perfformiad chwarter uwch</p>	<p>Ar gyfer nifer fechan o ganlyniadau ac ymrwymadau/ODI roeddem yn gallu cymharu cynigon ar draws y sector. Fe wnaethom sicrhau bod ymrwymadau perfformiad ac cymhelliannau yn targedu perfformiad chwarter uwch.</p>	<p>Un o'r egwyddorion allweddol ar gyfer cymhelliannau canlyniad yw'r angen i sicrhau bod cwmnïau'n cael eu gwobrwyo'n briodol am orberfformio, tra ar yr un pryd yn osgoi sefyllfaoedd lle gall cwmnïau ennill yn ariannol am ddarparu lefel perfformiad sydd ddim yn ymestynnol.</p>
<p>Effaith ariannol cyffredinol cymhelliannau</p>	<p>Rydym yn cynnig cyflwyno cap cyfansymiol cyffredinol ar effaith posibl cosbau a gwobrau cymhelliant.</p>	<p>Mae newydd-deb canlyniadau a chyfyngiadau wrth gymharu'r cymhelliannau a gynigiwyd gan gwmnïau yn golygu bod peth risg y gallai cwsmeriaid a chwmnïau brofi gwobrau a chosbau eithafol. Mae'r cap cyfansymiol yn ffordd liniaru'r risgiau hyn.</p>
<p>Costau cyfanwerthol</p> <p>Dim ond gadael lefel effeithlon o wariant mewn rheolaethau prisiau</p>	<p>Gwnaethom ond caniatáu ein barn ni o lefel effeithlon cyfanswm gwariant mewn rheolaethau prisiau ar gyfer pob cwmni. Gwnaethom addasu'r swm hwn dim ond lle gallai cwmnïau ddarparu tystiolaeth i ddangos bod angen newid ein barn ni er mwyn adlewyrchu amgylchiadau penodol y cwmni.</p>	<p>Gwariant dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol yw prif ysgogwr biliau cwsmeriaid. Mae ein hymyriadau yn sicrhau ein bod dim ond yn caniatáu'r lefel effeithlon o wariant sydd ei angen ar gwmnïau i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid.</p>

Mater	Ein hymyriad	Pam y gwnaethom ymyrryd
Sicrhau bod cymhelliannau am gyflwyno cynlluniau o safon uchel yn gymesur ac yn diogelu buddiannau cwsmeriaid.	Pan oedd ein barn ni ynglŷn â lefel gwariant effeithlon yn uwch nag yr oedd cwmni'n ei gynnig fe wnaethom gapio'r gwahaniaeth ar 5%.	Rydym yn diogelu buddiannau cwsmeriaid drwy gyfyngu ar y budd tymor byr i gwmnïau. Ond mae cwmnïau'n cadw cymhelliannau i gyflwyno cynigion o safon uchel, sydd o fudd i gwsmeriaid yn yr hir dymor drwy gwmnïau mwy effeithlon.
<p>Rheolaethau prisiau manwerthol</p> <p>Sicrhau bod cwmnïau wedi dyrannu costau'n gywir.</p>	Rydym yn ei gwneud hi'n ofynnol i rai cwmnïau gyflwyno tystiolaeth bellach er mwyn cefnogi eu dyraniadau costau cyn y byddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol. Bydd methu â darparu tystiolaeth ddigonol yn golygu y bydd angen mwy o sicrwydd ar gostau yn ystod 2015-20.	Rydym yn sicrhau bod pob rheolaeth prisiau yn adlewyrchu'n gywir cost darparu'r gwasanaeth perthnasol, gan gynorthwyo i wneud i gwmnïau ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn fwy effeithlon.
Dim ond caniatáu costau effeithlon	Fe wnaethom adolygu hawliadau cwmnïau i addasu'r gost i wasanaethu yn erbyn bar tystiolaethol uchel. Gwnaethom dim ond caniatáu addasiad pan fo cwmni'n darparu tystiolaeth a oedd yn ddigon argyhoeddiadol i fodloni ein meini prawf asesu	Mae ein hymyriadau yn sicrhau ein bod dim ond yn caniatáu'r lefel effeithlon o wariant sydd ei angen ar gwmnïau i ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid.
<p>Risg a gwobr</p> <p>Sicrhau bod y gost o godi cyllid yn briodol</p>	Yn ein canllaw risg a gwobr fe wnaethom nodi bod tystiolaeth y farchnad yn cefnogi cost cyfalaf is nag a gynigiwyd gan gwmnïau yn eu cynlluniau gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2013	Mae angen i gwmnïau effeithlon allu cyllido eu swyddogaethau, ond rhaid i ni ddiogelu cwsmeriaid drwy ond caniatáu i gwmnïau gael adenillion sy'n adlewyrchu'r risg y mae cwmnïau'n ei wynebu.

Mater	Ein hymyriad	Pam y gwnaethom ymyrryd
Sicrhau bod y gost o godi cyllid ar gyfer cwmnïau bach yn briodol	Gwnaethom dim ond caniatáu cynnydd i gost cyfalaf lle gallai cwmnïau llai ddangos eu bod yn wynebu costau uwch er mwyn codi cyllid a bod budd yn cael ei wrthbwyso i gwsmeriaid.	Mae angen i gwmnïau effeithlon allu ariannu eu swyddogaethau, ond rhaid i ni ddiogelu cwsmeriaid drwy ond caniatáu i gwmnïau gael adenillion sy'n adlewyrchu'r risg y mae cwmnïau'n ei wynebu.
Cyllidadwyedd a fforddiadwyedd		
Trosglwyddo manteision cost cyfalaf is	Rydym yn gofyn i gwmnïau weithio gyda chwsmeriaid i archwilio'n well i ba raddau y dylai budd cost cyfalaf is drosglwyddo i gwsmeriaid yn y cyfnod 2015-20 (yn hytrach na mewn cyfnodau yn y dyfodol).	Oherwydd ein bod yn defnyddio cost cyfalaf is nag a gynigiwyd gan gwmnïau rydym eisiau sicrhau bod cwsmeriaid yn elwa o hyn pan ei bod yn briodol i wneud hynny.

Darparu'r hyn mae cwsmeriaid am ei gael

Ar gyfer yr adolygiad prisiau hwn, mae byrddau cwmnïau wedi cymryd gwir berchnogaeth o'u cynlluniau busnes ac wedi canolbwyntio ar roi'r canlyniadau y mae cwsmeriaid am eu cael ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol, yn cynnwys diogelu'r amgylchedd.

Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau fel a ganlyn.

- Mae cwmnïau wedi cynnig 399 o ganlyniadau gydag ymrwymïadau perfformiad cysylltiedig. Gwrandawodd y cwmnïau ar ddymuniadau eu cwsmeriaid mewn perthynas â'r canlyniadau y maent am eu gweld a faint y maent yn barod i'w dalu am y canlyniadau hynny.
- Yn ein methodoleg derfynol fe ddywedom ein bod eisiau i gwmnïau gymryd mwy o berchnogaeth - ac atebolrwydd - am yr hyn y maent yn ei gyflawni i'w cwsmeriaid. Mewn ymateb, mae cwmnïau yn newid y ffordd y maent yn meddwl am lefelau gwasanaeth a pherfformiad canlyniadau, a darparu cymhelliannau i wella perfformiad.
- Lle nad yw manteision i gwsmeriaid o gynigion cwmni yn glir, rydym wedi ymyrryd mewn ffordd sy'n cynnal cymhelliannau i wella perfformiad, tra'n diogelu cwsmeriaid. Rydym wedi datblygu cyfres o ymyriadau sydd wedi eu bwriadu i gynnal cryfder ein heriau cost a chymhelliannau ar gwmnïau i wella perfformiad.


Yn ogystal â'r manteision tymor byr i gwsmeriaid o gael gwell canlyniadau, bydd y dull yr ydym wedi ei ddefnyddio yn datgelu gwybodaeth werthfawr am allu cwmnïau i gyflawni gwahanol ganlyniadau. Bydd hyn yn rhoi hyd yn oed mwy o fanteision i gwsmeriaid mewn cyfnodau rheolaeth prisiau dilynol, gan y gellir defnyddio'r wybodaeth i fireinio a thargedu cyhelliannau.

Cynigion cwmnïau

Mae cwmnïau wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'u cwsmeriaid i ddatblygu cyfres o **ganlyniadau ac ymrwymïadau perfformiad (PC)** cysylltiedig a **chymhelliannau cyflawni canlyniad (ODI)**. Mae hwn yn newid sylweddol o'r adolygiad prisiau blaenorol, a'n gwelodd ni fel y rheoleiddiwr yn rhagnodi allbynnau neu ganlyniadau. Fe wnaeth grwpiau her cwsmeriaid graffu ar ansawdd ymgysylltiad cwmnïau â chwsmeriaid ac i ba raddau yr oedd y cynlluniau busnes y gwnaethant eu cyflwyno yn adlewyrchu barn cwsmeriaid.

Roedd gan tua 59% o'r ymrwymadau perfformiad cysylltiedig â chanlyniadau ODI ariannol ynghlwm wrthynt (roedd 35% yn wobrau a chosbau ariannol; roedd 24% yn gosb yn unig) er mwyn cymell cwmnïau i gyflawni'r hyn y mae cwsmeriaid wedi ei ddweud y maent yn barod i dalu amdano. Gwelsom newid sylweddol yng ngwneuthuriad y cymhelliannau hyn rhwng y cynlluniau busnes gwreiddiol ym mis Rhagfyr a'r cynlluniau diwygiedig ym mis Mehefin gyda symudiad o gymhelliannau enw da i rai ariannol. Mae Ffigur 1 yn dangos hyn.

Ffigur 1 Newid mewn math o gymhelliannau rhwng mis Rhagfyr a'r cynlluniau diwygiedig¹



Ein hasesiad

Mae ein dull ar gyfer asesu canlyniadau, PC ac ODI a gynigir gan gwmnïau yn adlewyrchu'r ffaith bod y fethodoleg derfynol wedi rhoi rhyddid sylweddol i gwmnïau o ran eu hymagwedd tuag at gymhelliannau. Gollyngiadau a'r mecanwaith cymhelliant gwasanaeth (SIM) oedd y meysydd yr oedd gofyn i bob cwmni gynnig cymhelliant.

Cyn belled bod cwmnïau wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid ac wedi dilyn y blaenoriaethau a fynegwyd ganddynt a'u parodrwydd i dalu, gallai cwmnïau gynnig pecynnau cymheliad unigryw mewn dull o'u dewis. Er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid, roedd angen i lefelau perfformiad arfaethedig herio neu ymestyn y cwmnïau. Roedd yn rhaid i gymhelliannau ariannol a oedd yn cynnwys gwobrau am berfformio'n well a/neu gosbau am danberfformio adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid a chael eu cyfiawnhau gan barodrwydd cwsmeriaid i dalu.

¹ Mae'r ffigur yn cynrychioli cynigion ar yr adeg y cyflwynwyd cynlluniau diwygiedig cwmnïau ar 27 Mehefin. Maent yn cynnwys pob un o'r 18 cwmni (yn cynnwys y rheini a gyflwynodd cyn 27 Mehefin).

Fe wnaethom wirio i sicrhau bod pob maes gwariant allweddol wedi ei gynnwys gan ymrwymadau perfformiad o fewn pecyn canlyniadau cwmnïau.

Fe wnaethom gwblhau **dadansoddiad o'r gwaelod i fyny** ar gynigion pob cwmni, gan gydnabod y dewisiadau unigryw a wnaeth cwmnïau. Roedd ein dadansoddiad yn gyson â'n methodoleg fewnol o'r adolygiad seiliedig ar risg, yn canolbwyntio ar y dystiolaeth a ddarparwyd ar werth am arian, ymestyniad o fewn y lefelau perfformiad arfaethedig, a dewis a strwythur manwl y cymhelliannau arfaethedig.

Roedd rhan o'r dadansoddiad o'r gwaelod i fyny hwn yn cynnwys cynnal nifer o wiriadau cysondeb ar draws gwahanol elfennau o gynlluniau busnes cwmnïau er mwyn sicrhau bod y cymhelliannau arfaethedig yn diogelu cwsmeriaid yn erbyn y peryglon o dan-gyflewni. Gwnaethom:

- asesu cysondeb gyda hawliadau arbennig cost cyfanwerthol;
- gwirio yn erbyn perfformiad a aseswyd yn 2010-15; a
- gwirio cysondeb dulliau o ran cymhelliannau iechyd asedau.

Lle gwnaethom nodi pryderon fe wnaethom ymyrryd i ddileu neu newid cynigion cwmni, neu gofynnem i gwmnïau ailystyried eu cynigion yng ngoleuni ein hasesiad.

Y tro cyntaf i ni allu adolygu a deall y canlyniadau a chymhelliannau ariannol arfaethedig ar draws y sector cyfan oedd ar ddiwedd mis Mehefin. Fe wnaethom wirio **cysondeb ar draws cynigion cwmnïau drwy 'wiriadau llorweddol'** ar gyfer chwe maes penodol lle roedd hi'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng cynigion cwmnïau.

Gwelsom nad oedd cymhelliannau ariannol a gynigiwyd gan gwmnïau bob amser yn cael eu cyfateb gydag ymrwymadau perfformiad a oedd yn gyson â pherfformiad chwarterel uwch. Caiff cymhelliannau gwariant dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol cwmnïau eu graddnodi er mwyn cyflawni effeithlonrwydd chwarterel uwch yn ystod 2015-20. Mae hyn yn golygu y byddem yn disgwyl i gwmnïau gyflawni perfformiad chwarterel uwch lle gellir nodi hyn, er mwyn sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn cael eu diogelu.

Lle nad felly yr oedd hi fe wnaethom ymyrryd - gan ganiatáu llwybr llithro dwy flynedd i gyrraedd y pwynt hwn (sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebir gan rai cwmnïau i wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn darparu'r safon uchel hwn o berfformiad yn erbyn yr angen i gwsmeriaid weld manteision cyn gynted â phosibl).

O gofio cymharedd cyfyngedig nifer sylweddol o'r gymhelliannau arfaethedig, fe wnaethom ystyried y pecynnau arfaethedig cyffredinol o gymhelliannau ariannol ar

gyfer bob cwmni. Rydym wedi barnu ei bod yn briodol i gyflwyno **cap cyfansymiol cyffredinol**, er mwyn diogelu cwsmeriaid. Mae dull o'r fath yn adlewyrchu'r cyfyngiadau y mae nifer o gwmnïau yn eu hwynebu wrth ddarparu ystod o ganlyniadau o fewn pecyn ariannol cyfyng.

Gan gydnabod natur arloesol ein dull ar gyfer canlyniadau a chymhelliannau, rydym yn bwriadu gweithredu cap a choler o ± 2 pwynt canran ar enillion ar ecwiti rheoleiddiol (RoRE) y flwyddyn ar gyfanswm gwobrau a chyfanswm cosbau ar gyfer pob elfen rheolaeth prisiau.

Caiff y cap a choler cyfansymiol ei gyfrifo a'i gymhwyso dros bum mlynedd y rheolaeth prisiau, felly caniateir cyfartaleddu rhwng blynyddoedd. Ni chaniateir cyfartaleddu rhwng gwobrau a chosbau mewn perthynas â gwahanol ganlyniadau oherwydd byddau hyn yn gwanhau'r cymhelliant i gyflawni canlyniadau penodol a gallai olygu y bydd cwmnïau yn osgoi cosb pan na fyddant yn bodloni ymrwymiad perfformiad.

Gallai'r cwmni a/neu'r grŵp her cwsmeriaid wneud cais i Ofwat i newid y cap a choler pe bai'n teimlo bod y trefniant yn gweithio yn erbyn buddiannau cwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i bob cwmni ddangos y gall ei PC gael eu mesur a'u cofnodi'n gyson, ac y bydd ganddynt y drefn lywodraethu a'r prosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith i gyflawni hyn. Rhaid i gwmnïau fod yn dryloyw gyda'u cwsmeriaid ynglŷn â'u perfformiad yn erbyn eu canlyniadau a'u hymrwymadau. Ar gyfer y penderfyniad drafft rydym wedi nodi meysydd y teimlwn ni y gall cwmnïau wella ymhellach ar eu dull arfaethedig.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddangos sut y maent yn mynd i'r afael â'n pryderon cyn y penderfyniad terfynol.

Sicrhau gwerth am arian: Cyfanwerthu

Mae cost darparu dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol yn ysgogwr mawr biliau cwsmeriaid, gan gyfrif am dros 90% o'r gadwyn werth. Yn yr adolygiad prisiau hwn rydym yn defnyddio dull gwariant cyfan (totext) am y tro cyntaf i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â thuedd tuag at wariant cyfalaf dros wariant gweithredol ac annog cwmnïau i ddatblygu atebion cost arloesol.

Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau fel a ganlyn.


- Mae rhai cwmnïau wedi lleihau eu gwariant arfaethedig ers mis Rhagfyr. Mae eraill wedi cynyddu cwmpas yr hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni. Mae'r bwlch rhwng ein trothwy penderfyniad drafft a chynigion cwmnïau ar gyfer totex cyfanwerthol yn llawer agosach nac ydoedd ym mis Rhagfyr.
- Fe wnaethom dynhau'r trothwy cost a ddefnyddiom i herio cwmnïau gan dros £3 biliwn oherwydd (a) ein dull o ddefnyddio chwarterel uwch yn hytrach na her effeithlonrwydd cyfartalog ar gostau cyfanwerthol bob cwmni a (b) ein trothwy tystiolaeth uchel ar gyfer hawliadau cost cyfanwerthol arbennig cwmnïau.
- Rydym wedi ymyrryd lle nad yw'r hawliadau am gostau arbennig wedi mynd heibio'r clwydi perthnasol a osodwyd gennym, ond mae maint ein hymyriad yn llawer llai na'r adolygiad seiliedig ar risg, gan adlewyrchu gwaith cwmnïau i weithio i ymateb i'n hadborth wrth gyflwyno eu cynlluniau diwygiedig. Mae bylchau o bwys yn dal i fod rhwng ein trothwyon penderfyniadau drafft a chynigion cwmnïau ar gyfer tri rheolaeth prisiau gwahanol.

Rydym wedi derbyn dros 96% o'r gwariant cyfanwerthol yng nghynlluniau busnes cwmnïau yn gyffredinol. Rydym wedi gweld nifer o gwmnïau yn cyflwyno cynlluniau uchelgeisiol sy'n gwella gwasanaethau, yn diogelu'r amgylchedd ac yn dangos gwerth am arian ar gyfer eu cwsmeriaid.


Mae ffigurau 2 a 3 yn nodi'r bwlch rhwng ein barn ni a barn y cwmnïau ar wariant dŵr a dŵr gwastraff cyfanwerthol. Ar gyfer dŵr, roedd ein barn ynglŷn â chostau £452 miliwn yn is na'r hyn a gynigodd cwmnïau. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth sylweddol ar draws y cwmnïau gyda rhai'n cyflwyno costau a oedd yn is na'n barn ni; Thames Water oedd yr isaf o gymharu â'n barn ni, sef £524 miliwn (cyn y gwnaethon osod y cap 5% yr ydym yn ei ddisgrifio isod, a leihaodd y gwahaniaeth i £162 miliwn), ac eraill yn cyflwyno costau a oedd yn uwch na'n barn ni, gydag United Utilities yn dangos y gwahaniaeth mwyaf, sef £217 miliwn.

Ar gyfer dŵr gwastraff, mae ein barn ynglŷn â chostau £1.1 biliwn yn is na chynigion cwmnïau. Unwaith eto roedd hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng cwmnïau, gyda rhai yn is na'n barn ynglŷn â chost, Dŵr Hafren Trent oedd yr isaf o gymharu â'n barn ni, sef £342 miliwn (cyn y gwnaethon osod cap 5% a leihaodd y gwahaniaeth i £133 miliwn), ac eraill yn cyflwyno costau a oedd yn uwch na'n barn ni, United Utilities oedd yr uchaf dros ein barn sef £773 miliwn.

Ffigur 2 Gwahaniaethau lwfans totext dŵr cyfanwerthol o gymharu â chynlluniau busnes



Ffigur 3 Gwahaniaethau lwfans totext dŵr gwastraff cyfanwerthol o gymharu â chynlluniau busnes.



Gwnaethom ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynodd y cwmnïau i ni yn egluro pam efallai na fydd ein barn o gostau yn rhoi cyfrif cywir am eu hamgylchiadau. Gwnaethom dderbyn esboniadau rhai cwmnïau, ond gwrthodom nifer o hawliadau. Mewn rhai achosion roedd hyn oherwydd i ni ddod i'r casgliad bod ein barn ni o'r costau eisoes yn cynnwys yr hawliad. Mewn achosion eraill, ni allai cwmnïau ddarparu tystiolaeth i ddangos:

- bod gwariant ei angen yn ystod y cyfnod 2015-20;
- bod y cynigion yn fuddiol o ran costau ac wedi eu seilio ar ragfynegiadau cost cadarn; a
- byddai cwsmeriaid yn cael eu diogelu be bai, er enghraifft, cwmni yn methu â chyflawni cynllun penodol.

Mae effaith y safbwyntiau hyn yn dangos y bwlch rhwng ein barn ni a chynllun y cwmni, a ddangosir yn Nhabl 2.

Tabl 2 Bwlch rhwng cynlluniau diwygiedig cwmnïau a barn y penderfyniad drafft o gost

	% bwlch	
	Dŵr	Dŵr gwastraff
Anglian	5	-1
Hafren Trent	5	-5
Southern	6	6
Thames (ac eithrio Tideway)	-5	1
United Utilities	10	29
Wessex	4	7
Yorkshire	-5	0
Bristol	57	-
Dyffryn Dyfrdwy	12	-
Portsmouth	-3	-
Sembcorp Bournemouth	3	-
South East	5	-
South Staffordshire	3	-
Sutton & East Surrey	3	-

Ar gyfer ein penderfyniadau drafft fe ddefnyddiom ein barn o gost i benderfynu ar y lwfans gwariant mewn rheolaethau prisiau, cyn cymhwyso'r ddewislen.

Golyga hyn bod rhai cwmnïau'n derbyn llai o refeniw nac y gwnaethant ei gynnig yn eu cynllun. Nid yw hyn yn dynodi nad oes angen darparu cynlluniau neu weithgareddau penodol, ond ein bod angen tystiolaeth ychwanegol i fodloni ein hunain y dylai cwsmeriaid dalu amdanynt. Gall cwmnïau ymateb i'n penderfyniadau a darparu tystiolaeth ychwanegol cyn y penderfyniadau terfynol.

Mae gan y cwmnïau hyn y cyfle i ddeall ein penderfyniadau a chyflwyno tystiolaeth ychwanegol i gefnogi eu hawliadau yn eu sylwadau. Os bydd gwahaniaeth yn parhau rhwng ein barn ni o gostau a barn y cwmni nid yw hun yn trosi'n uniongyrchol yn wahaniaeth mewn refeniw a ganiateir, oherwydd ein bod yn deillio'r ddewislen

waelodlin drwy gyfuno ein hamcangyfrif ni o gostau effeithlon gyda rhagolygon y cwmni mewn cymhareb o 75:25.

Ar gyfer rhai cwmnïau mae'r bwlch hwn yn sylweddol. Ar 6 Awst gwnaethom gyhoeddi [dogfen](#) a oedd yn egluro ar gyfer tri rheolaeth prisiau bod y bwlch yn fwy na 20% ar gyfer tri cwmni. Roedd y rhain ar gyfer

- Rheolaeth pris dŵr gwastraff United Utilities (bwlch o £773 miliwn);
- Thames Water ar gyfer costau Twannel Thames Tideway (£331 miliwn); a
- Rheolaeth pris dŵr Bristol Water (£203 miliwn).

Ar gyfer y tri cwmni cyhoeddum ein hasesiad yn y meysydd hyn yn gynnar i roi cymaint o amser â phosibl i'r cwmnïau fynd i'r afael â'r materion hyn.

Ar gyfer cwmnïau oedd â bwlch negyddol (hynny yw bod ein barn ni o gostau yn uwch na barn y cwmni) gwnaethom hefyd defnyddio ein barn o gostau i benderfynu at y lwfans gwariant. Mae'r cwmnïau hyn yn derbyn mwy o refeniw ar gyfer naill ai costau dŵr neu ddŵr gwastraff cyfanwerthol nag a gynigir yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn ymyrryd petai'r bwlch yn fwy na 5% drwy gapio'r gwahaniaeth ar 5% yn un uwch na'r lefel gwariant a gynigiwyd gan y cwmni.

Rydym yn ystyried bod cap o 5% uwchben barn cynllun busnes cwmni o totex yn rhoi diogelwch cryf i gwsmeriaid. Ar yr un pryd, mae ein dull yn cydnabod y dylai cwmnïau sy'n cyflwyno cynlluniau cost effeithlon elwa o'r cymhelliannau yr ydym yn eu rhoi ar waith i annog cyflwyniadau o safon uchel ac y bydd cwsmeriaid yn elwa yn y tymor hir o symudiad yn effeithlonrwydd ffin diwydiant o'r cynlluniau cost effeithlon hyn.

Er bod cwmnïau wedi ymateb i'n hadolygiad seiliedig ar risg gyda gwybodaeth ychwanegol i'n cynorthwyo i ddeall lle nad yw ein lwfansau cost wedi'u modelu efallai'n ddigonol, mae llai o wybodaeth ar gael i ni ddeall lle efallai bod ein modelau yn gor-amcangyfrif costau cwmni effeithlon. Mae'r cap arfaethedig yn sicrhau ein bod yn rhoi mwy o bwysau ar gynigion cynllun busnes y cwmnïau eu hunain wrth osod terfynau prisiau lle bod 'bylchau negyddol' mor sylweddol.

Fe wnaethom egluro ym [mhennod A2 ein atodiad technegol penderfyniadau drafft](#) ein bod wedi defnyddio, ar gyfer y cwmnïau uwch South Wales Water ac Affinity Water, amrywiadau rhagolygon cwmnïau yn ein cyfrifiadau, gan gapio bwlch rhwng cynllun dŵr cyfanwerthol South Wales Water a'n barn ni.

Roedd ein penderfyniad ar y pryd hynny yn adlewyrchu amgylchiadau penodol y ddau gwmni a'u safle fel cwmnïau uwch. Fe ddywedom y byddai angen i ni ystyried

yr angen i addasu ein trothwyon cost ar sail achosion unigol. Roedd y bylchau ar gyfer dau benderfyniad drafft cynnar Dŵr Cymru a Northumbrian Water yn tua 4% o gymharu â'n trothwy. Felly ni chaiff y cwmnïau hyn eu heffeithio gan ein penderfyniad i gyflwyno cap o 5%.

Drwy ddefnyddio'r dull hwn, o'r 14 cwmni, fe wnaethom gapio gwariant ar gyfer Thames Water a Yorkshire Water ar gyfer rheolaeth pris dŵr a Dŵr Hafren Trent ar gyfer rheolaeth pris dŵr gwastraff.

Addasiadau ar gyfer perfformiad yn ystod 2010-15

Pan wnaethom osod y rheolaethau prisiau diwethaf yn 2009 fe wnaethom gynnwys nifer o fecanweithiau cymell i annog cwmnïau i wella a chyflenwi gwasanaethau yn fwy effeithlon ac i reoli ansicrwydd. Roedd y mecanweithiau hyn yn rhan o'n methodoleg PR09 (a phenderfyniadau yn 2009) ac y byddai cysoniad o'r cymhelliannau yn digwydd yn yr adolygiad prisiau hwn. Mae cwmnïau wedi gorfod adrodd ar eu perfformiad yn erbyn y mecanweithiau hyn a gosod unrhyw addasiadau a gynigir ar gyfer rheolaethau pris 2015-20 fel rhan o ddatblygiad eu cynllun busnes.

Rydym wedi cymharu barn pob cwmni o'i berfformiad yn erbyn y mecanweithiau hyn gyda'n hasesiad. Lle'r oedd ein hasesiad o'r addasiadau yn cyfateb i farn y cwmni, nid ydym wedi ymyrryd, ond gwnaethom nodi rhai cwmnïau lle'r oedd angen i ni ymyrryd oherwydd:

- nid oedd y cwmni wedi dyrannu refeniw yn briodol rhwng gwobrau a chosbau (er colled i gwsmeriaid); neu
- roeddem yn anghytuno gydag asesiad y cwmni o'i berfformiad ac nid oeddem wedi ein hargyhoeddi gan y dystiolaeth gefnogol.

Er ein bod wedi ymyrryd ar draws yr holl offer, mae ein prif ymyriadau wedi bod gyda'r SIM, mecanweithiau cywiro refeniw (RCM) a chynllun cymell gwariant (CIS) am mewn perthynas â defnyddioldeb (mae defnyddioldeb yn monitro a yw cwmnïau yn cynnal llif gwasanaeth i gwsmeriaid ac a yw'r asedau yn cael eu cynnal ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai yn y dyfodol). Yn PR09 fe ddywedom y byddem yn addasu rheolaethau prisiau cwmnïau drwy'r broses 'diffygio' er mwyn adlewyrchu lle mae cwmnïau yn darparu lefel llai na sefydlog o ddefnyddioldeb.

Mae ein hymyriadau yn lleihau refeniw diwydiant gan £192 miliwn a gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) diwydiant gan £360 miliwn o gymharu â chynlluniau cwmnïau.

Sicrhau gwerth am arian: manwerthol preswyl


Mae adolygiad prisiau 2014 yn gosod y rheolaethau prisiau ar wahân cyntaf ar gyfer gwasanaethau 'manwerthol' sy'n wynebu'r cwsmer ar gyfer cwsmeriaid preswyl. Mae'r costau manwerthol preswyl sydd wedi eu cynnwys yng nghynlluniau busnes cwmnïau ar gyfer 2015-20 yn £4.1 biliwn. Mae'r rheolaethau manwerthu hyn yn sicrhau bod gan gwsmeriaid lefel briodol o ddiogelwch o ran gwasanaeth a phrisiau. Drwy osod rheolaethau ar wahân ar gyfer cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid dibreswyl rydym wedi gwahaniaethu rhwng cwsmeriaid sydd heb ddewis cyflenwr a'r rheini sydd â dewis.

- Ar y cyfan bydd ein heriau i gostau manwerthu cwmnïau yn arbed £0.9 biliwn i gwsmeriaid rhwng 2015 a 2020². Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau fel a ganlyn.
- Ers mis Rhagfyr mae cwmnïau wedi lleihau eu costau preswyl manwerthol gan gyfanswm o £59 miliwn ac wedi dyrannu eu costau yn well ar draws grwpiau cwsmeriaid. Mae cwmnïau hefyd wedi ymrwmo i barhau i ddarparu diogelwch lefel gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid drwy'r SIM.³
- Bydd cymhwyso ein her effeithlonrwydd cyfartaledd cost i wasanaethu (ACTS) a pheidio â mynegeo rheolaethau prisiau manwerthu yn awtomatig i'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn fanteisiol i gwsmeriaid yn y cyfnod 2015-20 o ganlyniad i bwysau ar i lawr yr ydym wedi ei sicrhau i filiau cwsmeriaid.
- Rydym wedi gwneud ymyriadau gwerth £163 miliwn i gwsmeriaid ar hawliadau cwmnïau ar gyfer dyled ddrwg, pwysau prisiau mewnbwn a chostau newydd.

Mae Ffigur 4 yn dangos y newid mewn costau rhwng cynlluniau a'r penderfyniad drafft ac effaith ein hymyriadau.

² Cyfrifir cyfanswm yr arbedion ar gyfer cwsmeriaid preswyl manwerthol drwy gymharu cynlluniau busnes mis Mehefin, llai'r ceisiadau am lwfansau pwysau pris mewnbwn a rhagfynegiad RPI, gyda'r lwfansau penderfyniadau drafft. Y gwahaniaeth yw £909 miliwn

³ Yn 'Mecanwaith cymhelliant gwasanaeth (SIM) ar gyfer 2015 ymlaen – casgliadau' fe wnaethom amlinellu sut y bwriadwn reoleiddio gan ddefnyddio SIM yn y dyfodol.

Ffigur 4 Gwahaniaeth rhwng barn cwmnïau a barn Ofwat ynglŷn â chostau manwerthol preswyl⁴

Hawliadau cwmnïau i addasu cost i wasanaethu

Cynigodd rai cwmnïau addasu'r gost i wasanaethu er mwyn adlewyrchu effaith ffactorau penodol, yr oeddent yn dadlau oedd yn ystumio eu cost i wasanaethu yn y cyfnod rheoli nesaf. Ond ar y cyfan, nid oedd y rhan fwyaf o gwmnïau yn gallu cyrraedd ein bar tystiolaethol uchel. O'r 14 cwmnïau a gyflwynodd gynlluniau busnes ym mis Mehefin:

- dadleuodd pum cwmni o blaid addasiadau i adlewyrchu effaith **dyled ddrwg**. O'r cwmnïau sy'n derbyn penderfyniadau drafft heddiw, gwnaethom ddim ond caniatáu addasiadau ar gyfer un cwmni – United Utilities. Roedd yn gallu dangos bod effaith dyled ddrwg yn fawr, tu hwnt i reolaeth rheolwyr a'i fod yn arbennig o wahanol i weddill y sector;

⁴ Mae'r holl ffigurau wedi eu codi o gynlluniau cwmnïau/ein hasesiadau. Dangosir ffigurau mewn prisiau 2012-13 ac maent yn cynnwys pob cwmni (yn cynnwys y rheini a dderbyniodd benderfyniadau drafft cynnar). Amcangyfrif yw'r ffigur arbedion RPI wedi ei seilio ar ein cyngor annibynnol o ragamcanion i'r dyfodol o RPI a roddir ar gynlluniau cwmnïau heb yr hawliadau pwysau cost mewnbyn er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith - mae hyn yn gorygffwrdd â'r golofn cynlluniau busnes mis Mehefin cwmnïau ar y siart gan fod rhai cwmnïau wedi cynnwys lwfans ar gyfer chwyddiant yn eu cynlluniau busnes. Mae addasiadau ACTS na chaniateir yn cynnwys addasiadau ar gyfer diffyg mewn pensiwn a chostau newydd y gwnaed cais amdanynt fel addasiadau. Gan fod gwrthod cwmni yn effeithio ar yr ACTS, ac felly'r referniw a ganiateir ar draws y diwydiant, dangosir effeithiau net addasiadau na chaniatawyd ar wahân. Gosodir heriau effeithlonrwydd ACTS ar ô'r symud addasiadau ACTS.

- dadleuodd deg cwmni o blaid addasiadau i adlewyrchu effaith **pwysau pris mewnbwn**. Rydym dim ond wedi gwneud addasiad ar gyfer Yorkshire Water, yn amodol ar ein bod yn derbyn sicrwydd pellach ynglŷn â'i ddyraniad costau. Yorkshire Water oedd yr unig gwmni i ddangos bod yr effaith yn bwysig, y tu hwnt i reolaeth rheolwyr a'i fod yn arbennig o wahanol i weddill y sector gan ei fod yn cyflawni perfformiad chwarterl uwch; a
- chynhwysodd chwe chwmni **gostau newydd** o bwys yn eu cynlluniau busnes yr oeddent yn disgwyl eu cael ond na roddwyd ystyriaeth iddynt mewn data costau i wasanaethu hanesyddol. Dim ond ar gyfer un cwmni, Anglian Water, y gwnaethom ganiatáu costau newydd o bwys. Dangosodd hawliad Anglian Water angen clir, rhoddodd ddadansoddiad cost a budd a chostau cadarn. Cysylltodd pob buddsoddiad i fanteision cwsmeriaid. Caiff cwsmeriaid eu diogelu ymhellach drwy'r SIM. Gwnaethom hefyd gynnwys cynyddiadau cost ar gyfer Dŵr Hafren Trent, Thames Water ac United Utilities ond byddwn yn ceisio rhagor o dystiolaeth gan y cwmnïau hyn cyn y penderfyniadau terfynol.

Sicrhau gwerth am arian: dibreswyl manwerthol

Mae adolygiad prisiau 2014 yn gosod y rheolaethau prisau ar wahân cyntaf ar gyfer gwasanaethau 'manwerthol' sy'n wynebu'r cwsmer ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl. Mae'r costau manwerthol dibreswyl sydd wedi eu cynnig yng nghynlluniau busnes cwmnïau ar gyfer 2015-20 yn tua £580 miliwn. Ar gyfer pob un o'r 18 cwmni, rydym wedi cyhoeddi ein penderfyniadau drafft ar gyfer rheolaethau refeniw cyfartalog ar gyfer gwasanaethau manwerthol dibreswyl.

Hyrwyddo dewis er budd cwsmeriaid yn Lloegr

Mae ein hadolygiad prisiau 2014 yn rhoi rheolaeth refeniw cyfartalog ar wahân a rhwymol i bob cwmni ar gyfer gwasanaethau 'manwerthol' ar gyfer yr holl gwsmeriaid dibreswyl. Mae ein cynigion yn tybio, yn unol â pholisi Llywodraeth y DU, y bydd gan gwsmeriaid dibreswyl yn Lloegr y gallu i ddewis eu manwerthwr o 1 Ebrill 2017.

Bydd y tariffau diodyn y mae cwmnïau yn Lloegr yn eu gosod yn rhoi pwynt cymharu ar gyfer cwsmeriaid, fel y gallant weld yn glir a fyddent yn well eu byd o newid cyflenwr, gan gynorthwyo i gael y manteision gorau i gwsmeriaid o gael y diwygiadau i'r farchnad manwerthu a ddarperir gan Ddeddf Dŵr 2014.

Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yn Lloegr fel a ganlyn.

- Ers mis Rhagfyr mae cwmnïau wedi diwygio eu cynigion manwerthol dibreswyl. Mae hyn wedi cynnwys cwmnïau yn cynnal ymarferiadau dyrannu cost manwl.
- Ar y cyfan, bydd ein methodoleg yn cynorthwyo i hwyluso marchnad gystadleuol, tra'n sicrhau diogelwch addas ar gyfer cwsmeriaid. Mae ein dull wedi rhoi hyblygrwydd i gwmnïau ddatblygu eu cynigion manwerthu dibreswyl. Bydd hyn yn cynorthwyo'r farchnad fanwerthol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl i ddatblygu o 2017.
- Rydym wedi herio cynlluniau cwmnïau lle nad ydynt wedi darparu digon o dystiolaeth er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn parhau i fod wedi eu diogelu. Rydym wedi herio cynigion manwerthu dibreswyl cwmnïau gan gyfanswm o £54 miliwn (10%) dros gyfnod 2015-20. Nid ydym wedi ymyrryd yn y dyraniadau cost ac elw net a gynigiwyd yn y cynlluniau manwerthu dibreswyl yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi nodyn gwybodaeth yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer cynrychioliadau dyfarniad drafft mewn

perthynas â newidiadau posibl i hyd a ffurf y rheolaethau manwerthol dibreswyl. Rydym hefyd wedi gofyn i gwmnïau ddarparu tystiolaeth o ymgysylltiad gyda chwsmeriaid dibreswyl.

Mae pob cwmni'n gyfrifol am sicrhau bod ei dariffau diofyn ei hun yn cael eu gosod yn briodol (yn cynnwys eu bod yn cydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth). Rydym yn gwahodd cwmnïau i ystyried a fyddai'n well ganddynt pe bai'r rheolaethau dibreswyl yn cael eu gosod ar gyfer pum mlynedd, neu i ffurf y rheolaeth gael ei diwygio mewn rhyw ffordd a fyddai'n rhoi mwy o amser iddynt fynd i'r afael ag unrhyw faterion gyda'u dyraniadau cost ac elw net.

Diogelu cwsmeriaid yng Nghymru

Ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru, yn gyson â'n methodoleg derfynol, rydym wedi defnyddio dull gwahanol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, na fydd cwsmeriaid yng Nghymru sy'n defnyddio llai na 50MI o ddŵr yn gallu dewis eu cyflenwr yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru fel a ganlyn.

- Ers mis Rhagfyr mae cwmnïau wedi diwygio eu cynigion manwerthol dibreswyl. Mae Dŵr Cymru yn ceisio cyflawni gwerth tua £2.5 miliwn o arbedion cronus dros gyfnod 2015-20.
- Rydym wedi defnyddio her effeithlonrwydd rheoleiddiol yn seiliedig ar gymhariaeth gyda thariffau cyfatebol sydd ar gael i gwsmeriaid yn Lloegr. Er mwyn sicrhau y bydd cwsmeriaid yng Nghymru hefyd yn parhau i dderbyn gwasanaeth o ansawdd uchel lle na allant siopa yn y farchnad, rydym yn cynnwys SIM dibreswyl ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.
- Rydym wedi ymyrryd yn strwythurau tariff Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, oedd wedi ei datblygu'n wael a heb eu cefnogi gan dystiolaeth.

Mae cwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu tariffau diofyn yn cael eu gosod yn briodol (yn cynnwys eu bod yn cydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth) - er gwaethaf y ffaith mai dim ond ychydig o gwsmeriaid fydd â dewis ynglŷn â'u cyflenwr manwerthu.

Cydbwysu risg a gwobr

Fel y gwnaethom ei nodi yn ein canllaw risg a gwobr, bydd cynlluniau busnes o ansawdd uchel yn cynnwys risgiau, gwobrau a chosbau priodol. Mae gwobrau a chosbau effeithiol yn fanteisiol i gwsmeriaid drwy roi cymhelliannau ystyrllon i ddarparu'r gwasanaeth gorau a thrwy sicrhau bod risgiau'n cael eu dyrannu i gwmnïau lle maent yn y safle gorau i'w rheoli. Caiff y lefel gyffredinol o adennill (yn seiliedig ar berfformiad disgwylidig cwmnïau) effaith uniongyrchol ar filiau cwsmeriaid.

Mae canlyniadau allweddol ein hadolygiad o gynlluniau busnes cwmnïau fel a ganlyn.

- Mae pob cwmni ac eithrio un wedi derbyn ein canllaw risg a gwobr ar gost cyfalaf ac elw net cyfartalog wedi eu pwysoli yn eu cynlluniau mis Mehefin.
- Byddai ein cynigion drafft, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn arbed dros £2 biliwn i gwsmeriaid dros y cyfnod 2015-20, o gymharu â chynigion y cwmnïau yn yr adolygiad seiliedig ar risg.
- Rydym wedi ymyrryd mewn dau faes.
 - Mae pob cwmni dŵr heblaw un wedi ceisio codiad cwmni bach. Rydym dim ond yn caniatáu premiymau cwmnïau bach ar gyfer dau gwmni effeithlon y mae buddiannau yn uwch na'r costau.
 - Rydym wedi lleihau risg pris ar gyfer cwsmeriaid drwy ganiatáu dim ond mecanweithiau ansicrwydd ar gyfer trethi busnes dŵr a mecanwaith penodol ar gyfer Twannel Thames Tideway.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau sydd â chynlluniau busnes uchel eu safon i allu dangos sut yr ymdrinnir â risg a sut y gosodir gwobrau a chosbau er mwyn cymell perfformiad gwell. Rydym yn disgwyl i gynlluniau cwmnïau i gynnwys pecyn o risgiau, gwobrau a chosbau sy'n gweithio ar gyfer eu buddsoddwyr, ac rydym yn disgwyl iddynt allu dangos i ni fod hyn yn gyfystyr â bargaen dda i'w cwsmeriaid.

Gwnaethom nodi ein barn ynglŷn â beth fyddai pecyn risg a gwobr priodol pan gyhoeddom ein [canllaw ar risg a gwobr](#) ym mis Ionawr.

Bydd y penderfyniadau drafft yn galluogi **buddsoddwyr i gael adennillion sy'n adlewyrchu'r risgiau** y maent yn eu cymryd cyn belled â bod y cwmnïau yn cyflawni ar eu cynlluniau a'u hymrwymadau. Bydd y **cwmnïau yn gallu rhannu gwobrau ychwanegol gyda'u cwsmeriaid os byddant yn perfformio'n well** na'r targedau a nodir yn eu cynlluniau.

Rydym yn falch bod yr holl gwmnïau, ac eithrio Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, wedi mabwysiadu ein canllaw ar gyfer **elw preswyl manwerthol** (1%) a **manwerthol dibreswyl** (2.5%). Ni welsom unrhyw dystiolaeth a'n hargymhellodd i newid ein barn, felly rydym wedi cymhwyso'r elw hwn ar gyfer pob cwmni.

Yn yr un modd, ar gyfer cost **cost cyfalaf**, derbyniodd pob cwmni a oedd yn darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff y **gost cyfalaf** o 3.8% a nodir yn ein canllaw risg a gwobr. Dadleuodd pob un ond un o'r cwmnïau dŵr yn unig dros godiad i gost cyfalaf.

Yn ein penderfyniadau drafft rydym wedi gosod cost cyfalaf o 3.7%, yn gyson â'n canllaw risg a gwobr. Byddwn yn adolygu cost cyfalaf yn ein penderfyniad terfynol er mwyn rhoi ystyriaeth o'r farchnad a datblygiadau rheoleiddiol.

Caniataom godiad bychan i gost cyfalaf ar gyfer dau gwmni bach dŵr yn unig lle roeddem yn fodlon eu bod yn wynebu cost uwch i godi cyllid a bod gwrthbwyso o ran budd cwsmeriaid. Daethom i'r casgliad bod y dystiolaeth yn cefnogi cost dyled uwch o 0.25%, sy'n cyfateb i godiad o 0.15% ar gost cyfalaf ar gyfer y ddau gwmni.

Gallai derbyn y gost cyfalaf ac elw manwerthu o'r canllaw risg a gwobr weld manteision i gwsmeriaid a fydd yn uwch na £2 biliwn dros y cyfnod 2015-20. Fodd bynnag, nid yw'n glir bod cwmnïau wedi ymgysylltu â'u cwsmeriaid ynglŷn â sut y caiff yr arbedion hyn eu rhannu rhwng cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi gofyn i rai cwmnïau ymgysylltu â'u cwsmeriaid eto i ystyried y cyfaddawd rhwng cwsmeriaid presennol a dyfodol o ran eu bod yn trosglwyddo'r manteision o gost cyfalaf is ymlaen. Rydym wedi ymyrryd yng nghynlluniau Yorkshire Water a Sembcorp Bournemouth Water. Roedd Yorkshire wedi dileu holl effaith lleihad cost cyfalaf cyfartalog wedi'i phwysoli (WACC) yn 2015-20 gyda fawr ddim tystiolaeth bod hyn yn fanteisiol i gwsmeriaid. Roedd Sembcorp Bournemouth Water wedi cynnal biliau uwch yn 2015-20 er mwyn cynnal proffil bil sefydlog dros 2015-20 (dau gyfnod rheolaeth prisiau) gyda fawr ddim tystiolaeth bod y dull hwn yn fuddiol i gwsmeriaid nac wedi cael eu cefnogaeth ddeallus.

Byddwn yn parhau i herio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i gwsmeriaid. Pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2014, byddwn yn ystyried tystiolaeth y farchnad ddiweddaraf i sicrhau bod y gost cyfalaf a osodir yn parhau'n briodol. Rydym yn nodi bod tystiolaeth y farchnad bresennol yn awgrymu symudiad at i lawr yng nghost dyled ers i ni gyhoeddi ein canllaw risg a gwobr.


Asesu lefel yr enillion cyffredinol

Ar gyfer yr adolygiad hwn, rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn cymell cwmnïau i orberfformio. Rydym wedi cynllunio'r cymhelliannau i sicrhau bod buddiannau buddsoddwyr wedi eu halinio'n well gyda buddiannau cwsmeriaid drwy ddarparu cymhelliannau i orberfformio. Rydym yn mesur y cwmpas ar gyfer tanberfformio a gorberfformio gan ddefnyddio **RoRE**, sy'n nodi effaith risgiau ar gynllun busnes y cwmni.

Mae Ffigur 5 yn nodi amrediad y RoRE o gynllun pob cwmni, wedi ei ddiweddarau i gynnwys amrediad perfformiad ODI sy'n gyson â'n ymyriadau ar ymrwymiadau perfformiad ac ODI. Mae ein hymyriadau yn effeithio ar lefel y cosbau a gwobrau a chynllunio capiau a choleri ar gyfer ODI cwmnïau. Mae'r amrediadau RoRE yn offer defnyddiol i randdeiliaid ddeall effaith ein hymyriadau.

Wrth i gwmnïau ymateb i'n hymyriadau a newid eu cynigion cyn y penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2014 rydym yn disgwyl i amrediad y RoRE newid. Byddem yn disgwyl i bob cwmni amlinellu effaith unrhyw newidiadau yn eu cynigion.

Ffigur 5 Amrediad RoRE ar gyfer cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff o gymharu â chynlluniau busnes diwygiedig



Ein dull ar gyfer mecanweithiau ansicrwydd

Rydym yn credu bod mecanweithiau rhannu risg da yn rhoi cymhelliannau i gwmnïau leihau costau a darparu gwell gwasanaethau.

Mae gan gwmnïau fynediad at ystod o fecanweithiau ansicrwydd sydd wedi eu bwriadu i fynd i'r afael â risg, yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- yr adolygiad rheolaeth prisiau cyfnodol;
- cymhelliannau rhannu cost totex;
- mynegai o refeniwiau cyfanwerthol a ganiateir a'r RCV gyda'r RPI; a'r
- penderfyniad interim (IDoK) a darpariaethau effeithiau sylweddol yn nhrwyddedau cwmnïau.

Gall pob un o'r mesurau hyn leihau'n effeithiol pa mor agored yw cwmnïau i'r amrywiadau annisgwyl mewn costau a/neu refeniwiau drwy ganiatáu iddynt drosglwyddo peth o'r amrywiad annisgwyl i gwsmeriaid drwy newidiadau mewn biliau.

Ar gyfer PR14, roedd cwmnïau'n gallu cynnig eu mecanweithiau ansicrwydd eu hunain yn y cynlluniau busnes.

Yn ein canllaw risg a gwobr fe ddywedom ein bod wedi canfod angen am **fecanwaith ansicrwydd** i ddelio â chostau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â newidiadau i drethi busnes gwasanaeth dŵr lle'r ydym wedi cynnwys mecanwaith gyda chyfradd rhannu o 75:25 ar gyfer pob cwmni.

Yn eu cynlluniau gosododd y rhan fwyaf o gwmnïau gynigion ar gyfer mecanwaith ansicrwydd yn y maes hwn yn ogystal â mecanweithiau awgrymedig eraill (mewn meysydd megis cyflwyno cystadleuaeth). Gwnaethom asesu pob cynnig drwy ystyried:

- a fyddai'r mater yn debygol o fod **o bwys**;
- a allai rheolwyr y cwmni **reoli** ei effaith;
- a fyddau ei amgylchiadau yn **gymharus** â chwmnïau eraill; ac
- **a fyddai buddiannau cwsmeriaid yn cael eu diogelu** .

Ni wnaeth ein hasesiad nodi unrhyw fecanweithiau ansicrwydd ychwanegol (gyda goblygiad ariannol) a oedd yn bodloni'r meini prawf hyn yn erbyn ein bar tystiolaethol uchel.

Cynigion ar filiau cwsmeriaid

Bydd y penderfyniadau drafft, os cânt eu gweithredu, yn ysgogi gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei dderbyn yn uniongyrchol ac i'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae angen i gwsmeriaid gael yr ymddiriedaeth a'r hyder bod cwmnïau yn cyflawni'r gwelliannau hyn yn effeithlon, gan roi gwerth am arian. Wrth galon hyn y mae'r berthynas rhwng cwmnïau a'u cwsmeriaid. Mae hon yn berthynas y mae'n rhaid i gwmnïau fod yn berchen arni ac, yn unol â hyn, mater i'r cwmnïau yw penderfynu sut y maent yn gosod y taliadau a fydd yn llifo i filiau cwsmeriaid yn unol â'n penderfyniad terfynol a'u dyletswyddau a rhwymedigaethau.

Yn eu cynlluniau busnes, roedd yn rhaid i gwmnïau ddangos bod y cynlluniau'n fforddiadwy i gwsmeriaid ac yn adlewyrchu barn cwsmeriaid ynglŷn â faint y maent yn fodlon dalu. Mae angen iddynt hefyd ddangos bod eu cynlluniau yn cydbwysu anghenion cwsmeriaid presennol a rhai'r dyfodol.

Roedd cynllun pob cwmni yn nodi ei farn am y goblygiad ei gynllun ar gyfer proffiliau bil (hynny yw y gyfradd newid yn y bil dros gyfnod 2015-20). Mae ein penderfyniadau drafft yn awgrymu proffil bil a allai fod yn wahanol i broffiliau bil cynllun y cwmni. Mae hyn oherwydd bod nifer o'r heriau y gwnaethom i gynigion cwmnïau wedi effeithio ar y refeniw a ganiateir i gwmnïau o dan y rheolaethau prisiau. Mae'r graddau y bydd hyn yn uwch neu'n is na chynlluniau'r cwmni yn golygu y bydd biliau cwsmeriaid goblygedig yn wahanol.

Byddai'r cynigion prisiau drafft at gyfer pob un o'r 18 cwmni, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn arwain at gyfartaledd biliau ar gyfer cwsmeriaid dŵr a dŵr gwastraff yn 2015-20 sydd 5% yn is nac yn 2010-15 mewn termau real.

Ar gyfer un ar ddeg o'r cwmnïau sy'n derbyn penderfyniadau drafft heddiw, mae ffigur 6 yn dangos y gwahaniaeth rhwng biliau cyfartalog 2010-15 a biliau cyfartalog 2015-20 yn seiliedig ar ein penderfyniadau drafft.

Mae ffigur 7 yn dangos effaith ein hymyriadau ar filiau cwsmeriaid. Mae'n cymharu'r gwahaniaeth rhwng biliau cyfartalog 2010-15 a beth fyddai biliau cyfartalog 2015-20 o dan gynlluniau'r cwmnïau ac o dan ein penderfyniadau drafft.


Mae tablau 3 a 4 yn nodi lefel y biliau yn ystod 2015-20.

Mae'r tablau a'r siartiau hyn yn eithrio biliau ar gyfer y tri chwmi sydd â bylchau o bwys rhwng ein barn a barn y cwmni o gost cyfanwerthol (Bristol Water, Thames Water Tideway Tunnel ac United Utilities). Mae hyn oherwydd ein bod yn disgwyl i'r cwmnïau hyn ddarparu tystiolaeth bellach mewn ymateb i'n penderfyniadau drafft, sy'n ei gwneud hi'n anodd rhoi syniad da o filiau ar hyn o bryd.


Mae'r holl ffiguriau hyn yn parhau'n ddangosol. Gall biliau dŵr cwsmeriaid cartref amrywio yn dibynnu ar eu defnydd dŵr a dŵr gwastraff. Bydd rhai cwsmeriaid preswyl yn derbyn biliau gan ddarparwyr dŵr a dŵr gwastraff gwahanol. Mae hi hefyd yn bwysig cydnabod:

- nad penderfyniadau terfynol yw ein penderfyniadau drafft; lle bod cynrychioliadau rhanddeiliaid yn cefnogi ac yn dangos newid mewn dull gallai hyn effeithio ar lefel a phroffil biliau; ac
- mae cwmnïau'n gyfrifol am osod biliau. Y cwmnïau fydd yn penderfynu bob blwyddyn ar y lefel y byddant yn gosod taliadau ar gyfer cwsmeriaid yn gyson â'n penderfyniadau terfynol.

Ffigur 6 Cymhariaeth biliau cyfartalog ar draws 2010-15 hyd penderfyniad drafft 2015-20



Ffigur 7 Cymhariaeth o'r biliau cyfartalog ar draws 2010-15 hyd gyfartaledd a gynigiwyd gan gwmnïau ar gyfer 2015-20 a biliau penderfyniad drafft



Tabl 3 Cyfartaledd bil cyfun blynyddol ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Anglian	408	380	375	370	368	363
Hafren Trent	315	298	294	294	293	297
Southern	413	381	381	379	378	378
Wessex	459	417	417	417	416	416
Yorkshire	353	338	338	338	337	336

Tabl 4 Cyfartaledd bil dŵr blynyddol ar gyfer cwmnïau dŵr yn unig (£)

	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Dyffryn Dyfrdwy	144	136	136	136	136	136
Portsmouth	92	92	92	92	92	92
Sombcorp Bournemouth	145	130	130	129	126	125
South East	190	181	181	180	179	179
South Staffordshire	133	130	129	128	128	128
Sutton & East Surrey	176	180	173	169	165	160

Beth sy'n digwydd nesaf

Ceir proses ymgynghori pum wythnos o hyd a fydd yn caniatáu i randdeiliaid gyflwyno eu barn am ein penderfyniadau drafft. **Gwahodddwn sylwadau erbyn 10am ar 3 Hydref 2014.** Byddwn yn rhoi gofal a sylw dyladwy i'r holl sylwadau a dderbyniwn.

Wrth wneud sylwadau, dylai cwmnïau:

- ystyried yn ofalus beth mae eu sylwadau yn ei olygu i gwsmeriaid a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol, gan egluro sut y maent yn alinio gyda blaenoriaethau eu cwsmeriaid a fforddiadwyedd biliau cyffredinol; a
- sicrhau eu bod yn cynnwys yn eu sylwadau yr holl ofynion penodol ar gyfer gwaith pellach (yn cynnwys ymgysylltiad gyda grwpiau her cwsmeriaid) a nodir yn eu dogfen cwmni-benodol, [IN 14/14: '2014 price review – non-household customer engagement ahead of draft determination representations'](#) a'r ohebiaeth benodol arall⁵.

Pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniadau terfynol ym mis Rhagfyr 2014, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau ac unrhyw dystiolaeth bellach yr ydym yn ei dderbyn. Rydym eisoes wedi dweud ein bod yn disgwyl edrych eto ar gost cyfalaf fel rhan o'n penderfyniadau terfynol, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r dystiolaeth fwyaf diweddar. Byddwn yn parhau i herio cwmnïau i gyflawni er budd gorau cwsmeriaid a thra'n sicrhau bod cwmnïau effeithlon yn parhau i allu cyllido eu swyddogaethau.

Mae hi felly'n bosibl, ac yn debygol, y bydd rhai penderfyniadau terfynol yn wahanol i benderfyniadau drafft. Os felly, byddwn yn amlinellu'r rhesymau dros y newidiadau.

Croesawn sylwadau ar ein penderfyniadau drafft gan yr holl randdeiliaid. Er mwyn cynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall yn well ein dull, ochr yn ochr â'r trosolwg hwn rydym hefyd wedi cyhoeddi:

- nifer o atodiadau technegol sy'n crynhoi'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd ar gyfer pob cwmni wrth lunio penderfyniadau drafft. Maent yn ymdrin ag elfennau allweddol ar draws yr holl reolaethau prisiau; ac

⁵ 'Llythyr gan Sonia Brown i nifer o gwmnïau dŵr – PR14 June business plan: Concerns regarding quality of data and assurance'.

- atodiadau cwmni-benodol, sy'n nodi ein penderfyniadau drafft ar gyfer pob cwmni unigol.

Byddwn yn cyhoeddi'r holl sylwadau a dderbyniwn. Dylai rhanddeiliaid amlygu agweddau cyfrinachol eu sylwadau, a nodi'r rheswm pam y dylent gael eu cadw'n gyfrinachol.

Gellir anfon sylwadau ar y penderfyniadau drafft at price.review@ofwat.gsi.gov.uk neu eu postio i:

Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA.

Mae Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yn adran llywodraeth anweinidogol. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth o ansawdd da ac effeithlon i gwsmeriaid am bris teg.



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7699
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Ffotograff © freepixels.com
Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio
Awst 2014

ISBN 978-1-908116-77-2

© Hawffraint y Goron 2014

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v2.0. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/2> neu e-bostio psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawffraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawffraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.



www.ofwat.gov.uk